

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 8fed Rhagfyr 2020 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

- 1. Presenol:** Sian Dafydd (Cadair), Gareth Lloyd Jones, Peter Bridges – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo, Ffion Jones – Nantlle; Iona Wyn Jones, Barry Bracegirdle, Justin Davies, Erfyl Williams – Penygroes; Gwyndaf Roberts, OP Huws, Hefina Roberts – Llanllyfni; Craig ab Iago - Cynghorwyr Sir; Gwadd – Dylan Roberts a Gwyndaf Williams Grŵp Cynefin.
Ymddiheuriadau: Harry Wyn Owen – Talysarn, Dylan Herbert – Penygroes a Judith Humphreys Cynghorwr Sir. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd, Talysarn. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan.
- 3. Gwadd – Dylan Roberts a Gwyndaf Williams i drafod y Tir ger Maes Dulyn** – Estynwyd croeso i Dylan Roberts a Gwyndaf Williams o Grŵp Cynefin i'r cyfarfod. Esboniwyd bod datblygiadau positif wedi bod ynglŷn â'r prosiect hwn a bod cais cynllunio wedi ei roi fewn i Gyngor Gwynedd i adeiladu y tai ar y tir ger Maes Dulyn (Ty'n Y Weirglodd). Aeth Gwyndaf Williams drwy yr adroddiad a oedd wedi ei baratoi a rhoddwyd cyfle i'r cynghorwyr ofyn cwestiynau. Yn dilyn trafodaeth gofynwyd wrthynt faint o'r ymgeiswyr sydd yn byw yn yr ardal neu o Ddyffryn Nantlle yn wreiddiol – yn anffodus nid oedd y data yma gan Grŵp Cynefin ag mai Cyngor Gwynedd sydd yn cadw y data hwn. Gofynwyd o hyn felly sut oedd sicrhau fod y tai yn mynd i bobl leol os nad oedd y data ganddynt. Atebwyd fod polisi yn cael ei roi mewn lle ar gyfer hyn. Diolchwyd iddynt am ddod i'r cyfarfod gyda'r manylion a'r adroddiad. Gadawodd Justin Davies y cyfarfod gan ddweud y byddai yn ail-ymuno hwyrach ymlaen.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 10 Tachwedd 2020** – cynnigiodd Barry Bracegirdle ac eiliodd Peter Bridges fod y cofnodion yn gywir.
- 5. Cynghorwyr Sir – adroddiadau** – roedd Judith Humphreys a Craig ab Iago wedi paratoi adroddiadau ymlaen llaw a roedd pawb wedi cael cyfle i edrych drostynt cyn y cyfarfod. Diolchwyd i'r ddau ohonynt am eu gwaith gydol y flwyddyn a diolch am yr adroddiadau. Nid oedd dim cwestiynau yn codi o'r adroddiadau.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** – Nia wedi cysylltu gyda Ian Morgan Cyngor Gwynedd am faterion mis diwethaf ond heb gael ymateb – angen cysylltu eto am y materion hyn. Barry Bracegirdle wedi cyfarfod gyda Dylan Jones Cyngor Gwynedd a PCSO Geraint Roberts ar y gylchfan ynglŷn â'r gor-yrro o gyfeiriad Llanllyfni. Adroddodd Barry ar beth a drafodwyd ag o ganlyniad mae y drain a oedd ar y gornel wrth y stad ddiwydianol wedi eu clerio a mae posib gweld yn well rwan. Diolchwyd i Barry am fynychu'r cyfarfod. Holodd OP Huws os oedd unrhyw beth pellach wedi dod yn dilyn y cwynion am fynwent Macpelah – dim byd pellach wedi ei dderbyn. Holodd Gwyndaf Roberts os oedd ymateb wedi bod gan unrhyw un o'r sefydliadau ynglŷn â'r Eryr Euraid Eryri – dim ymateb wedi ei dderbyn.
- 7. Taflen ariannol a chyllid** – Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros ebost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Nid oedd dim sylwadau ac fe'u cymeradwywyd.
- 8. Cyfarfodydd is bwyllgorau / Cyfarfodydd yn ystod y mis** – Bu i is-bwyllgor cyllid gyfarfod ar y 7fed Rhagfyr a dyma beth a drafodwyd – **Praesept 2021/22** – Aeth Gareth Lloyd Jones drwy beth a drafodwyd am y praesept yn yr is-bwyllgor ac esboniodd eu bod yn argymhell codi y praesept 2.4% i £50,000. Cytunodd pawb i hyn. Awgrymodd hefyd y dylid ail-edrych ar y gyllideb yn mis Ebrill felly bydd yr is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod eto ddechrau y mis hwnnw. Esboniodd Sian Dafydd fod yr is-bwyllgor wedi trafod buddsoddi mewn gwefan newydd a hefyd prosiect Macpelah a cododd Dafydd Thomas y pwynt fod angen nodi ar y gyllideb costau y bocsys halen. Cynnigiodd Barry Bracegirdle fod y cyngor yn rhoi £2,000 wrth gefn ar gyfer y wefan ac eilwyd gan OP Huws, cytunodd pawb. **Tendr Macpelah** – yn dilyn o'r cyfarfod teimlwyd fod yn rhaid gyrru y tendr allan ar gyfer y gwaith yn Macpelah yn fuan yn mis Ionawr. Trafodwyd hyn gyda'r cyfarfod llawn a cytunodd pawb i hyn a hefyd cytunwyd i roi 4 i 5 wythnos o amser i dderbyn ymatebion gan gontractwyr (diwedd Chwefror). Cytunod OP Huws i yrro geiriad yr hysbyseb i

bawb gael edrych drosto. **Ffatri Northwood** – Esboniodd OP Huws yma beth a drafodwyd a bod yna gyllideb o fewn Cyngor Gwynedd o £1miliwn tuag at adeiladu unedau diwydiannol newydd. Teimlai OP Huws y buasai o fodd i wario yr arian hwn ym Mhenygroes ag ar safle y ffatri yn hytrach na adeiladu unedau newydd. Roedd OP Huws wedi paratoi braslun o beth y buasai yn bosib ei yrru i'r cyngor – eiliodd Sian Dafydd ei gynnig a cytunodd pawb. Nia i yrru at adran Economaidd Cyngor Gwynedd am hyn.

Cyfarfod Safle ail-gylchu Penygroes – cyfarfu rhai o'r cynghorwyr ar gyfer trafod y safle ail-gylchu ac yn dilyn trafodaeth penderfynwyd creu holiadur er mwyn i bobl leol gael ei lenwi yn dweud am eu defnydd o'r safle ayyb. Crewyd yr holiadur gan Peter Bridges a dangoswyd yr holiadur i'r pwyllgor llawn heno. Esboniodd y bydd yr holiadur yn cael ei rannu frwy gyfryngau cymdeithasol, neges destyn, QR code ayyb. Gofynwyd i Nia edrych dros yr holiadur a wedyn i Peter Bridges ei roi yn fyw ar y cyfryngau. Barry Bracegirdle yn gofyn os oedd modd i Nia gysylltu gyda Peter Simpson o'r Cyngor i ofyn iddynt ddod i glerio y safle ail-gylchu -Nia i wneud hyn.

9. Problem traffic yn Penygroes – nid oedd Justin Davies wedi ail ymuno gyda'r cyfarfod felly penderfynwyd gadael y pwynt hwn hyd nes y byddai yn dod yn nôl.

10. Goleuadau Nadolig – Holwyd beth sydd angen ei wneud i symud ymlaen gyda hyn? Gwyndaf Roberts o'r farn mai cysylltu hefo preswylwyr y tai sydd angen a dim eu llythyru. Wedi derbyn amcanbris o £650 gan Gyngor Gwynedd am y gwaith o dynnu y golau i lawr ond teimlo bydd y gost yn llawer iawn mwy na hyn. Hefyd teimlai nad lle y preswylwyr yw trwsio, paentio ayyb yn dilyn tynnu y golau a dylai'r gost yma gael ei dalu gan y Cyngor. Sian Dafydd pwysleisio felly bod angen cael gwybod pwy yw y preswylwyr. Gwyndaf Roberts yn adrodd fod yna lawer o waith yn ymwneud a hyn a mai tua mis Mawrth yw'r amser i ddechrau ar hyn. Mae yna £3,000 yng nghyllideb eleni wedi ei glustnodi ar gyfer y goleuadau nadolig. Holodd OP Huws at bwy y dylsai y Cyngor Cymuned fynd ar gyfer gwneud y gwaith. Atebodd Gwyndaf fod yr amcanbris wedi dod gan Gyngor Gwynedd ond bod cwmnïau eraill sydd yn gwneud y math yma o waith. Trafodwyd y mater ymhellach a gofynnodd Erfyl Williams os mai Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am y golau gan mai Cyngor Arfon osododd hwy yn y lle cyntaf? Awgrymodd OP Huws, oherwydd profiad Gwyndaf yn y maes hwn, efallai y buasai yn fodlon arwain ar hyn a cael cyfarfod gyda cynghorwyr Penygroes a'r clerc i drafod ymhellach. Eiliodd Barry y cynnig a cytunodd Gwyndaf i arwain.

11. Plan creu caetir / glasdir – Gwyndaf Roberts o'r farn nad ydi y Cyngor Cymuned yn gwybod lle mae y darn tir yma ag esboniodd mai yn Cilgwyn mae'r safle ac mae ar dir preifat y mae o a mai cais cynllunio yw hwn. Yn dilyn trafodaeth ar y mater cytunwyd i'r clerc gysylltu yn nôl gyda hwy gyda sylwadau a godwyd, sef bod y Cyngor Cymuned yn gefnodol o'r cynllun yn amodol fod y llwybr cyhoeddus yn cael ei gadw yn glir a dim gor-dyfiant ac hefyd eu bod eisïau cadarnhad nad yw y safle am gael ei adael i dyfu yn wyllt sydd yn mynd i achosi perygl o dannau mewn tywydd poeth. Hefyd angen codi y pryderon am chwyn er enghraifft ragwort, himalayan balsam ayyb.

12. Cyn trafod pwynt 12 aethpwyd yn nôl i bwynt 9 – **Problem traffic yn Penygroes** – ymunodd Justin Davies yn nôl gyda'r cyfarfod a esboniodd pam yr oedd wedi gofyn i hyn gael ei drafod. Roedd Justin Davies a Judith Humphreys wedi ymweld a lleoedd peryglus oherwydd traffic ayyb ym Mhenygroes. Dangosodd luniau o leoedd ac roedd wedi nodi y peryglon. Trafodwyd hyn ag mai y peryglon a oedd yn dod i'r golwg oedd wrth gerdded ar hyd y ffyrdd nad oes palmant. Cynnigiodd Justin y dylid cysylltu gyda Cyngor Gwnedd i holi beth yw'r rhoelau ynlŷn â cael palmant a pwysleisio wrthynt fod diogelwch yn bwysig. Rhan 2 o beth yr oedd Justin eisïau ei drafod oedd ei fod yn awyddus i greu ffurflen ar-lein i holi beth yw barn pobl leol am hyn a hefyd rhoi cyfle i bobl rannu storiâu o bethau sydd wedi digwydd oherwydd y peryglon hyn. Eiliodd Barry Bracegirdle gynnig Justin i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd a awgrymwyd i Justin roi cynnig at ei gilydd ag yna i Nia ei basio ymlaen i Gyngor Gwynedd. Cytunwyd ar hyn.

Aethpwyd yn nôl nawr i drafod pwynt 12 – **Materion Pentrefi – Penygroes** – Barry Bracegirdle eisïau i Nia gysylltu gyda Cyngor Gwynedd ynglyn a sianel draen wedi torri a twll yno dros y ffordd i 66 Trem Y Wyddfa. Iona Jones gofyn a oes posib cysylltu gyda'r cyngor i ofyn am fin baw ci ar Ffordd Y Brenin gan fod yna lawer o faw ci yn cael ei adael ar y lle glas wrth yr ysgol. Nia i gysylltu gyda'r cyngor am y materion hyn. **Llanllyfni** – Gwyndaf yn holi os oedd Nia wedi clywed rhywbeth ynglŷn â'r ffordd o Bron Haul i Graianfryn – na. Eisïau felly cysylltu gyda Gerallt Jones – Nia i wneud hyn. **Nebo** – Y cerrig dal yn y ffordd ers misoedd nawr ag dal i greu pryderon am eu bod yn beryglus. Nia i gysylltu eto gyda'r cyngor am hyn. **Talysarn** – dim mater i'w drafod. **Nantlle** – Ffion Jones yn holi Craig ab Iago os oedd yna unrhyw syniad o pryd fydd y mesurydd gor-yrru yn cael ei osod. Nid oedd Craig yn gwybod.

- 13. Sedd wag Ward Penygroes** – Cynnigiodd Iona Jones enw Heledd Gwilym Thomas ar gyfer y sedd wag ac eilwyd gan Erfyl Williams. Nia i hysbysu Heledd ei bod wedi ei chyfethol a rhoi gwahoddiad iddi i'r cyfarfod nesaf.
- 14. Ceisiadau Cynllunio** - Ceisiadau sydd wedi dod ger bron
- Apêl APP/Q6810/A/20/3257139 – Tir gyferbyn a Tai Nantlle, Nantlle – dim gwrthwynebiad.
 - C20/0939/22/AC – Cytiau Cae Ffatri nr Woolen Mill, Penygroes – dim gwrthwynebiad
 - Cais C20/0987/22/DT – Tyn Y Pwll, Lôn Ddŵr, Llanllyfni – dim gwrthwynebiad
 - Cais C20/0881/22/LL – 42 Stryd y Wyddfa, Penygroes – dim gwrthwynebiad.
- 15. Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn y gohebiaeth a oedd wedi eu derbyn i gyd tros y mis a nid oedd dim yn codi.
- 16. Llwybrau a mynwentydd** – codwyd y pwynt y bydd cytundeb gyda'r contractwyr yn dod i ben yn Mawrth 2021 a cynnigiodd OP Huws y buasai yn syniad i'r is-bwyllgor gyfarfod ar 4ydd Ionawr i drafod y gytundeb. Cytunodd pawb i hyn. Angen gyrru copi o'r dendr a cytundeb i bawb edrych drostynt cyn 4ydd Ionawr. Wedi derbyn amcanbris o £500 gan y contractwyr i dorri y coed celyn yn Eglwys Llanllyfni. Gweld hyn yn ddrud. OP Huws yn cynnig dylid holi arbenigwyr am bris i ddod i waredu ar celyn yn gyfan gwbl. Eilwyd y cynnig hwn gan Barry Bracegirdle a Gwyndaf Roberts a cytunodd pawb. Enwyd cwmni NANT – Nia i gysylltu gyda hwy am bris. Wedi derbyn amcanbris o £250 gan y contractwyr am dynnu y gorlan fach yn Mynwent Macpelah – trafodwyd a penderfynwyd i ddweud wrthynt grio ymlaen gyda'r gwaith hwn gan bwysleisio pwysicrwydd i fod yn ofalus rhag creu llanast yno. Sian Dafydd wedi siarad gyda Harry Owen a holi sut oedd cyflwr y fynwent yn Macpelah yn dilyn tynnu y corlenni a beth oedd sefyllfa y sbwriel yno – adroddodd ei bod yn daclus yno ar ôl tynnu y corlenni. Justin Davies yn cynnig y dylid diolch i bobl am gadw y fynwent yn daclus ar y ddael Facebook.
- 17. Materion ariannol** –Harry W Owen £14.22 – Wynnstay. Nia Jones – Ffôn a rhyngwyd Rhagfyr £25. Zoom Rhagfyr £14.38. Inc printer, ffeiliau a stampiau £31.57. Cytunwyd i'w talu.
- 18. Ceisiadau am arian** – Nia wedi paratoi hysbyseb a wedi ei yrru i bawb edrych drosto er mwyn ei roi allan ar y wefan a tudalen facebook. Pawb cytuno. Gwyndaf Roberts cynnig y dylid cael cyfarfod arbennig i drafod y ceisiadau am arian yn dilyn y dyddiad cau 31 Ionawr 2021.